Paul Davies AC
Aelod y Ceidwadwyr Cymreig dros Preseli Penfro
Conservative Member for Preseli Pembrokeshire

Llyr Gryffudd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

31 Hydref 2018

Annwyl Llyr

Bil Awtistiaeth (Cymru)

Yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyllid i roi tystiolaeth ar y Bil Awtistiaeth (Cymru), hoffwn egluro camgymeriad yn fy nhystiolaeth. Byddwch yn ymwybodol, er nad yw hi wedi bod yn bosibl darparu ffigur cywir ar gyfer cyfanswm costau awtistiaeth yng Nghymru, y ffigur amcangyfrifedig sydd wedi'i gynnwys yn yr RIA yw £1.1 biliwn y flwyddyn. Mae'r RIA yn cyfeirio at ostyngiad o 1% mewn gwariant awtistiaeth gan arwain at arbediad o £1 miliwn bob blwyddyn, sef ffigur y cyfeiriais ato hefyd yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid. Fodd bynnag, mae hwn yn danamcangyfrif o'r arbedion posibl oherwydd, yn seiliedig ar gyfanswm costau o £1.1 biliwn, byddai gostyngiad o 1% mewn gwariant awtistiaeth mewn gwirionedd yn arwain at arbedion blynyddol o £11 miliwn, sydd o fudd llawer mwy. Byddwn yn ddiolchgar pe gellid ystyried y ffigur diwygiedig hwn wrth i'r Pwyllgor Cyllid barhau i graffu ar y Bil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

Paul Davies AC
Preseli Sir Benfro

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA - Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Tel/Ffôn: 0300 200 7216
paul.davies@cynulliad.cymru / www.pauldaviesam.co.uk